
OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2016 Rhif 413 (Cy. 131)

GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU A LLOEGR

**Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a
Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016**

Gwnaed - - - - 19 Mawrth 2016

Yn dod i rym yn unol â rheoliad 2

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014(1).

Gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 196(6) o'r Ddeddf honno ac fe'i cymeradwywyd gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru drwy benderfyniad.

Enwi

1. Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2016.

Cychwyn

2.—(1) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 6 Ebrill 2016 yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (6).

(2) Daw rheoliad 140 i rym ar y diwrnod y daw adran 85D o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992(2) i rym.

(3) Daw rheoliad 158 i rym ar y diwrnod y daw adran 562J o Ddeddf Addysg 1996(3) i rym.

(4) Daw rheoliad 235 i rym ar y diwrnod y daw adran 93A o Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006(4) i rym.

(5) Daw rheoliad 253 i rym ar y diwrnod y daw'r diwygiad i adran 6 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006(5), a wnaed gan baragraff 8 o Atodlen 14 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2008(6), i rym.

(6) Daw rheoliadau 322 a 323 i rym yn union ar ôl i'r diwygiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, sy'n mewnosod yn y Ddeddf honno Atodlen A1 (Taliadau

(1) 2014 dccc 4.
(2) 1992 p. 13.
(3) 1996 p. 56.
(4) 2006 p. 40.
(5) 2006 p. 47.
(6) 2008 p. 14.

Uniongyrchol: Ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983), a wnaed gan baragraff 1 o Ran 2 o Atodlen 4 i Ddeddf Gofal 2014(7), ddod i rym.

Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 (p. 12)

3. Mae Deddf Plant a Phobl Ifanc 1933 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
4. Yn adran 34(7A)(8) (presenoldeb mewn llys riant plentyn neu berson ifanc a gyhuddir o drosedd etc.), ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 76 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.
5. Yn adran 34A(9) (presenoldeb rhiant neu warcheidwad mewn llys), yn is-adran (2)(b) ar ôl “1970” mewnosoder “or the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

Deddf Cymorth Gwladol 1948 (p. 29)

6. Mae Deddf Cymorth Gwladol 1948 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
7. Yn adran 1 (disodli cymhwyso cyfraith y tlodion gan ddarpariaethau penodol yn y Ddeddf), hepgorer y geiriau o’r “and” cyntaf hyd at y diwedd.
8. Hepgorer Rhan 3.
- 9.—(1) Hepgorer Rhan 4 ac eithrio adrannau 49 a 68.

(2) Yn adran 49(10) (treuliau swyddogion cyngor sy’n gweithredu fel derbynyddion), yn lle “any such council as is referred to in section 48(4) of this Act, other than one in Wales,” rhodder “a county council in England, a district council for an area in England for which there is no county council, a London borough council or the Common Council of the City of London,”.

Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958 (p. 33)

10. Mae Deddf Personau Anabl (Cyflogaeth) 1958 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
11. Yn adran 3 (darparu cyflogaeth warchodol gan awdurdodau lleol)—
 - (a) yn is-adran (1), ar ôl y geiriau “A local authority” mewnosoder “in England or Scotland”;
 - (b) yn is-adran (2)(11), hepgorer “section twenty-nine of the National Assistance Act 1948 or under paragraph 2 of Schedule 15 to the National Health Service (Wales) Act 2006, or”;
 - (c) yn is-adran (5)(12), hepgorer “and in relation to Wales, the council of a county or county borough”.
12. Hepgorer yr Atodlen.

Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 (p. 46)

13. Mae Deddf Gwasanaethau Iechyd ac Iechyd y Cyhoedd 1968 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(7) 2014 p. 23.

(8) Amnewidiwyd adran 34 gan adran 25(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 1963 (p. 37). Mewnosodwyd is-adran (7A) gan baragraff 6 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

(9) Mewnosodwyd adran 34A gan adran 56 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1991 (p. 53).

(10) Diwygiwyd adran 49 gan adran 192 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

(11) Diwygiwyd adran 3(2) gan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43), paragraffau 18 a 19 o Atodlen 1 i’r Ddeddf honno a pharagraff 11 o’r Atodlen i O.S. 2015/914.

(12) Diwygiwyd adran 3(5) gan adrannau 22(4) a 66(8) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19), paragraff 3 o Atodlen 10 i’r Ddeddf honno ac Atodlen 18 iddi. Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

14. Hefgorer adran 45 (hybu gan awdurdodau lleol les hen bobl).

15. Yn adran 63(8) (darparu cyfarwyddyd mewn gweithgareddau penodol sy'n gysylltiedig ag iechyd neu les), yn y diffiniad o "the relevant enactments"—

- (a) ym mharagraff (a)(13) ar ôl "2006" mewnosoder "or for the purposes of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014";
- (b) ym mharagraff (b)(14)—
 - (i) hepgorer "Part III of the National Assistance Act 1948";
 - (ii) hepgorer "section 45 of this Act and";
 - (iii) ar ôl "2006 Acts" mewnosoder "and Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

16. Yn adran 64 (cymorth ariannol gan Weinidogion i sefydliadau gwirfoddol penodol), yn is-adran (3)(a)—

- (a) hepgorer is-baragraff (iii);
- (b) ar ôl is-baragraff (xxii) mewnosoder—
"xxiii) section 15 and Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;".

17. Yn adran 65 (cymorth ariannol gan awdurdodau lleol i sefydliadau gwirfoddol penodol), yn is-adran (3)(b)—

- (a) hepgorer is-baragraff (iii);
- (b) ar ôl is-baragraff (xxii) mewnosoder—
"xxiii) section 15 and Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;".

Deddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970 (p. 31)

18. Yn Atodlen 8 i Ddeddf Gweinyddu Cyfiawnder 1970 (gorchmynion cynhaliaeth at ddibenion Rhan 2 o'r Ddeddf a Deddf 1958), ym mharagraff 6(a) ar ôl "Children Act 1989" mewnosoder "or under paragraph 3 of Schedule 1 to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014".

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 (p. 42)

19. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

20. Yn adran 1(15) (awdurdodau lleol)—

- (a) yn lle "the councils of non-metropolitan counties, metropolitan districts and London boroughs" rhodder "the councils of non-metropolitan counties and metropolitan districts in England, the councils of London boroughs";
- (b) hepgorer o "but, in relation to Wales" hyd at y diwedd.

21. Yn adran 6 (cyfarwyddwr gwasanaethau cymdeithasol)—

(13) Diwygiwyd paragraff (a) gan adran 20 o Ddeddf Iechyd a Meddyginiaethau 1988 (p. 49), gan adran 55(3) o Ddeddf Plant 2004 (p. 31), gan adran 129 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 (p. 49) a pharagraff 45 o Atodlen 15 iddi a chan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 (p. 43) a pharagraffau 33 a 38(e)(ii) o Atodlen 1 iddi.

(14) Diwygiwyd paragraff (b) gan adran 129 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 1977 a pharagraff 45 o Atodlen 15 iddi a chan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Darpariaethau Canlyniadol) 2006 a pharagraffau 33 a 38(e)(iii) o Atodlen 1 iddi.

(15) Diwygiwyd adran 1 gan adran 195(1) a (3) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70) a chan adran 22(4) o Ddeddf Llywodraeth Leol (Cymru) 1994 (p. 19) a pharagraff 7 o Atodlen 10 iddi.

- (k) yn y cofnod sy'n ymwneud â Deddf Gofal Cymunedol (Rhyddhau Gohiriedig etc.) 2003(27), hepgorer—

“Part 2

Functions imposed by regulations relating to eligibility for free provision of personal care to persons living at home.”;

- (l) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Deddf Gofalwyr (Cyfle Cyfartal) 2004(28);
- (m) yng Ngholofn 1 o'r cofnod sy'n ymwneud â Deddf Plant 2004(29) yn lle “, 13 to 16 and 31 to 34” rhodder “and 13 to 16”;
- (n) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Cymru) 2006(30);
- (o) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010(31);
- (p) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(32);
- (q) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Mesur Strategaethau ar gyfer Gofalwyr (Cymru) 2010(33);
- (r) hepgorer y cofnod sy'n ymwneud â Mesur Iechyd Meddwl (Cymru) 2010(34).

Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 (p. 44)

25. Mae Deddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
26. Yn adran 1 (gwybodaeth ynghylch yr angen am wasanaethau lles a'u bodolaeth), hepgorer is-adrannau (1) a (2).
27. Yn adran 2 (darparu gwasanaethau lles), hepgorer is-adran (1).
28. Hefgorer adran 28A (cymhwyso'r Ddeddf i awdurdodau a chanddynt swyddogaethau o dan Ddeddf Plant 1989).

Deddf Atafaelu Enillion 1971 (p. 32)

29. Yn Atodlen 1 i Ddeddf Atafaelu Enillion 1971 (gorchmynion cynhaliaeth y mae'r Ddeddf yn gymwys iddynt), ym mharagraff 7(35) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “, paragraph 3 of Schedule 1 to the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”.

Deddf Llywodraeth Leol 1972 (p. 70)

30. Yn adran 112 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 (penodi staff), yn is-adran (4)(g) ar y diwedd mewnosoder “or section 144 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

(27) 2003 p. 5.

(28) 2004 p. 15.

(29) 2004 p. 31.

(30) 2006 p. 42.

(31) 2010 mccc 1.

(32) 2010 mccc 2.

(33) 2010 mccc 5.

(34) 2010 mccc 7.

(35) Diwygiwyd paragraff 7 gan baragraff 29 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

Deddf Digollediad Tir 1973 (p. 26)

31. Yn adran 38 o Ddeddf Digollediad Tir 1973 (swm taliad aflonyddu ar gyfer personau nad oes ganddynt fuddiannau y gellir digolledu amdanynt), yn is-adran (3), ym mharagraff (a)(**36**) yn lle “section 29 of the National Assistance Act 1948” rhodder “Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

Deddf y Lluoedd Wrth Gefn 1980 (p. 9)

32. Mae Atodlen 2 i Ddeddf y Lluoedd wrth Gefn 1980 (pensiynwyr y fyddin a'r awyrlu a chyn-filwyr eraill nad ydynt yn agored i gael eu hailalw i wasanaethu) wedi ei diwygio fel a ganlyn—

- (a) ym mharagraff 2A(**37**) ar ôl “2014” mewnosoder “or section 18(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
- (b) hepgorer paragraff 3(a).

Deddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43)

33. Yn adran 62(5)(a) o Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980(**38**) (darpariaethau ynghylch taliadau y mae'n ofynnol eu gwneud i blentyn etc.) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 74 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

Deddf Uwchlysoedd 1981 (p. 54)

34. Yn Atodlen 1 i Ddeddf Uwchlysoedd 1981 (dosbarthiad busnes yn yr Uchel Lys) ym mharagraff 3 ar ôl is-baragraff (eb) mewnosoder—

- “(ec) proceedings under Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014;”.

Deddf Iechyd Meddwl 1983 (p. 20)

35. Mae Deddf Iechyd Meddwl 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

36. Yn adran 117B(**39**) (ôl-ofal: eithriad ar gyfer darparu gofal nyrsio), yn is-adran (1) hepgorer “in England”.

37. Yn adran 135(**40**) (gwarant i chwilio am gleifion a'u symud i fan diogel), yn is-adran (6) yn lle “Part III of the National Assistance Act 1948” rhodder “Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 (p. 41)

38. Mae Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

39. Yn adran 17 (ffioedd am wasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr)—

- (a) hepgorer is-adrannau (2A)(**41**) a (5);

(36) Diwygiwyd adran 38(3)(a) gan baragraff 24 o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(37) Mewnosodwyd paragraff 2A gan baragraff 26 o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(38) Amnewidiwyd adran 62(5) gan adran 108(5) o Ddeddf Plant 1989 a pharagraff 44(2) o Atodlen 13 iddi.

(39) Mewnosodwyd adran 117B gan baragraffau 27 ac 28 o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(40) Diwygiwyd adran 135(6) gan baragraffau 27 a 29 o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#). Mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

(41) Mewnosodwyd adran 17(2A), o ran Cymru, gan adran 14(1) a (4) o Fesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010.

- (b) ym mharagraff (a) o is-adran (3) hepgorer “or a service within subsection (2A)(42)”;
- (c) ym mhennawd yr adran, hepgorer y geiriau “and Wales”.

40. Yn adran 22 (ôl-ddyledion cyfraniadau a godir ar fuddiant mewn tir yng Nghymru a Lloegr)

- (a) ar ôl is-adran (2B)(43) mewnosoder—

“(2C) A local authority in Wales may not create, or be required by directions under subsection (2A) to create, a charge under this section on or after the day on which section 2 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 came into force.”;

- (b) ar ôl is-adran (3A)(44) mewnosoder—

“(3B) Subject to subsection (5) below, a charge under this section created by a local authority in Wales shall be in respect of any amount which is outstanding from time to time and is—

- (a) assessed as due to be paid by the person to the authority for the Part III accommodation, or
- (b) due by the person to the authority under Part 5 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in respect of meeting needs for care and support by the provision of accommodation for the person, including anything provided in connection with that accommodation.”;

- (c) yn is-adran (4)(45), hepgorer “Wales or”.

Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (p. 22)

41. Yn adran 46 o Ddeddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984 (claddu ac amlosgi), yn lle is-adran (2)(46) rhodder—

“(2) Any council which is the local authority for the purposes of the Local Authority Social Services Act 1970 may cause to be buried or cremated the body of any deceased person who immediately before his death was being provided with accommodation under Part 1 of the Care Act 2014.

(2A) A local authority within the meaning of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 may cause to be buried or cremated the body of any deceased person who immediately before his death was being provided with accommodation under Part 4 of that Act.”

Deddf Achosion Priodasol a Theuluol 1974 (p. 42)

42. Yn adran 31L(8)(a)(i) o Ddeddf Achosion Priodasol a Theuluol 1984(47) (gorfodi) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 74 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.

Deddf Trafnidiaeth 1985 (p. 67)

43. Mae Deddf Trafnidiaeth 1985 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(42) Diwygiwyd adran 17(3)(a) gan baragraffau 30 ac 31(1) a (4) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(43) Mewnosodwyd adran 22(2B) gan baragraffau 30 a 32(1) a (2) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(44) Mewnosodwyd adran 22(3A) gan baragraffau 30 a 32(1) a (3) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(45) Diwygiwyd adran 22(3) gan baragraffau 30 a 32(1) a (4) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(46) Diwygiwyd adran 46(2) gan baragraff 34(a) a (b) o'r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(47) Mewnosodwyd adran 31L gan baragraff 1 o Atodlen 10 i Ddeddf Troseddau a'r Llysoedd 2013 (p. 22).

44. Yn adran 104 (consesiynau teithio) yn is-adran (2)(b)(48), yn lle paragraff (ii) rhodder—
“(ii) by any local authority within the meaning of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in the discharge of their functions under Part 4 of that Act (meeting needs).”
45. Yn adran 137(1) (dehongli cyffredinol), yn y diffiniad o “social services functions” ar y diwedd mewnosoder “or the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.

Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 (p. 33)

46. Mae Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986 wedi ei diwygio fel a ganlyn.
47. Yn adran 2(5) (hawliau cynrychiolwyr awdurdodedig personau anabl)—
- (a) ym mharagraff (b)(49), yn lle “Part III of the 1948 Act or Part 1 of the Care Act 2014” rhodder “Part 1 of the Care Act 2014 or Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
 - (b) ym mharagraff (bb)(50) ar ôl “Part III of the Children Act 1989” mewnosoder “, or under Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
 - (c) ym mharagraff (c)(51), yn lle “section 26 of the 1948 Act or Part 1 of the Care Act 2014” rhodder “Part 1 of the Care Act 2014 or, in Wales, in compliance with a local authority’s duty to meet the needs of the disabled person pursuant to Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”; a
 - (d) ym mharagraff (cc)(52) ar ôl “under section 17 of the Children Act 1989” mewnosoder “, or under Part 4 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”.
48. Yn adran 3 (asesu anghenion personau anabl gan awdurdodau lleol yng Nghymru neu’r Alban)—
- (a) yn is-adran (1)(53) hepgorer “Wales or”;
 - (b) ym mhennawd yr adran(54) hepgorer “Wales or”.
49. Yn adran 4(55) (gwasanaethau o dan adran 2 o Ddeddf Cleifion Cronig a Phersonau Anabl 1970: dyletswydd i ystyried anghenion personau anabl)—
- (a) yn is-adran (1)—
 - (i) ar ôl “local authority” mewnosoder “in England”;
 - (ii) yn lle “section 2(1) or (4)” rhodder “section 2(4)”;
 - (b) yn is-adran (2) hepgorer “In the case of a local authority in England”.
50. Yn adran 8 (dyletswydd awdurdod lleol yng Nghymru neu’r Alban i ystyried galluoedd gofalwr)—
- (a) yn is-adran (1)(b)(56) hepgorer “Wales or”;
 - (b) ym mhennawd yr adran(57) hepgorer “Wales or”.
51. Yn adran 16(1) (dehongli)—

(48) Diwygiwyd adran 104(2)(b) gan baragraff 35 o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(49) Diwygiwyd adran 2(5)(b) gan baragraffau 36 a 37(a) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(50) Mewnosodwyd adran 2(5)(bb) gan baragraff 59(3) o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

(51) Diwygiwyd adran 2(5)(c) gan baragraffau 36 a 37(b) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(52) Mewnosodwyd adran 2(5)(cc) gan baragraff 59(4) o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

(53) Diwygiwyd adran 3(1) gan baragraffau 36 a 38(1) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(54) Diwygiwyd pennawd adran 3 gan baragraffau 36 a 38(2) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(55) Diwygiwyd adran 4 gan baragraffau 36 a 39(1), (2), (3) a (4) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(56) Diwygiwyd adran 8(1)(b) gan baragraffau 36 a 40(1) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(57) Diwygiwyd pennawd adran 8 gan baragraffau 36 a 40(2) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

- (a) yn y diffiniad o “disabled person”, yn lle paragraff (a)(58) rhodder—
“(a) in relation to Wales means a person who is disabled within the meaning of section 3 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014; and”;
- (b) yn y diffiniad o “local authority”—
(i) ar ôl “1970” mewnosoder “or the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
(ii) yn lle “that Act” rhodder “the 1970 Act”;
- (c) yn y diffiniad o “the welfare enactments”—
(i) hepgorer “Part III of the 1948 Act, section 2 of the 1970 Act and”;
(ii) ym mharagraff (za)(59), ar ôl “England,” mewnosoder “section 2 of the 1970 Act,”;
(iii) ym mharagraff (a)(60), yn lle’r geiriau o “Schedule 15” hyd at ddiwedd y paragraff mewnosoder “Parts 4 and 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
- (d) yn lle is-adran (2)(61) rhodder—
“(2) In this Act as it applies in relation to England, any reference to a child who is looked after by a local authority has the same meaning as in Part 3 of the Children Act 1989.
(2ZA) In this Act as it applies in relation to Wales, any reference to a child who is looked after by a local authority has the same meaning as in Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”

Deddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (p. 41)

52.—(1) Yn Atodlen 5 i Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1988 (ardrethu annomestig: eithriad), mae paragraff 16 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

- (2) Yn lle is-baragraff (2)(62) rhodder—
“(2) For the purposes of this paragraph in its application to hereditaments in Wales, a person is disabled if he is disabled within the meaning of section 3 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”
- (3) Yn lle is-baragraff (4)(63) rhodder—
“(4) “Welfare services for disabled persons” means services or facilities (by whomsoever provided)—
(a) of a kind which a local authority in England had power to provide under section 29 of the National Assistance Act 1948 before it ceased to apply to local authorities in England;
(b) of a kind which a local authority in Wales has power to provide, or arrange to provide, to an adult in the exercise of its functions under sections 35 or 36 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”

(58) Diwygiwyd paragraff (a) yn y diffiniad o “disabled person” gan baragraff 61 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989 a chan baragraffau 36 ac 41(1) a (3) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(59) Mewnosodwyd paragraff (za) yn y diffiniad o “welfare enactments” gan baragraffau 36 ac 41(1) a (4) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(60) Diwygiwyd paragraff (a) yn y diffiniad o “welfare enactments” gan baragraffau 36 ac 41(1) a (5) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#) a chan baragraff 61 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

(61) Mewnosodwyd adran 16(2) gan baragraff 61 o Atodlen 13 i Ddeddf Plant 1989.

(62) Diwygiwyd is-baragraff (2) gan baragraff 42(1) a (3) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

(63) Diwygiwyd is-baragraff (4) gan baragraff 42(1) a (4) o’r Atodlen i [O.S. 2015/914](#).

Deddf Nawdd Cymdeithasol 1989 (p. 24)

53. Mae Deddf Nawdd Cymdeithasol 1989 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

54. Yn Atodlen 5—

- (a) ym mharagraff 5A(7A)(a)(64) (darpariaethau absenoldeb tadolaeth annheg) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
- (b) yn lle paragraff 5A(7A)(b) rhodder—
 - “(b) in relation to that child, the member satisfies the conditions prescribed under section 171ZB(2)(a)(i) and (ii) of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992, as modified—
 - (i) in relation to a local authority in England, by section 171ZB(8) of that Act (cases involving the placing of a child by a local authority in England with a local authority foster parent who has been approved as a prospective adopter);
 - (ii) in relation to a local authority in Wales, by section 171ZB(10) of that Act (cases involving the placing of a child by a local authority in Wales with a local authority foster parent who has been approved as a prospective adopter)”;
- (c) ym mharagraff 5B(7)(a)(65) (darpariaethau absenoldeb mabwysiadu annheg) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;
- (d) yn lle paragraff 5B(7)(b) rhodder—
 - “(b) in relation to that child, the member satisfies the condition in section 171ZL(2) (a) of the Social Security Contributions and Benefits Act 1992, as modified—
 - (i) in relation to a local authority in England, by section 171ZL(9) of that Act (cases involving the placing of a child by a local authority in England with a local authority foster parent who has been approved as a prospective adopter);
 - (ii) in relation to a local authority in Wales, by section 171ZL(11) of that Act (cases involving the placing of a child by a local authority in Wales with a local authority foster parent who has been approved as a prospective adopter).”;
- (e) yn lle paragraff 5C(8)(a)(66) (darpariaethau absenoldeb rhiant a rennir annheg) rhodder—
 - “(a) the member’s absence from work is due to the placement of a child under—
 - (i) section 22C of the Children Act 1989 by a local authority in England, or
 - (ii) section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 by a local authority in Wales,
 with a local authority foster parent who has been approved as a prospective adopter.”;
- (f) ym mharagraff 5C(8)(b)(i) ar ôl “Children Act 1989” mewnosoder “or section 81 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014”;

(64) Mewnosodwyd paragraff 5A gan adran 265(1) o Ddeddf Pensiynau 2004 a mewnosodwyd is-baragraff (7A) gan baragraffau 1 a 2(1) a (5) o Atodlen 7 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

(65) Mewnosodwyd paragraff 5B gan adran 265(1) o Ddeddf Pensiynau 2004 a mewnosodwyd is-baragraff (7) gan baragraffau 1 a 3(1) a (3) o Atodlen 7 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

(66) Mewnosodwyd paragraff 5C gan baragraffau 1 a 4 o Atodlen 7 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

(g) ym mharagraff 5C(8)(b)(ii) ar ôl “England” mewnosoder “or Wales”.

Deddf Plant 1989 (p. 41)

- 55.** Mae Deddf Plant 1989(**67**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- 56.** Yn is-adran (11) o adran 14F(**68**) (gwasanaethau cymorth gwarcheidiaeth arbennig)—
- (a) ar ôl “local authority” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd mewnosoder “in England”;
 - (b) ar ddiwedd yr is-adran mewnosoder “and see sections 164 and 164A of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 for provision about co-operation between local authorities in Wales and other bodies.”
- 57.**—(1) Ar ôl y pennawd yn Rhan 3 mewnosoder—

“Application to local authorities in England

Application to local authorities in England

- 16B.**—(1) This Part applies in relation to local authorities in England.
- (2) Accordingly, unless the contrary intention appears, a reference in this Part to a local authority means a local authority in England.”
- (2) Yn lle pennawd Rhan 3 rhodder—

*“SUPPORT FOR CHILDREN AND FAMILIES
PROVIDED BY LOCAL AUTHORITIES IN ENGLAND”.*

- 58.** Yn adran 17 (darparu gwasanaethau ar gyfer plant mewn angen, eu teuluoedd ac eraill)—
- (a) yn is-adran (4)(**69**) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
 - (b) ar ddiwedd yr adran mewnosoder—
“(13) The duties imposed on a local authority by virtue of this section do not apply in relation to a child in the authority’s area who is being looked after by a local authority in Wales in accordance with Part 6 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”
- 59.** Yn adran 17ZA(**70**) (asesiadau o anghenion gofalwyr ifanc: Lloegr)—
- (a) yn is-adran (1) hepgorer “in England”;
 - (b) yn is-adran (12) hepgorer “in England”;
 - (c) yn y pennawd hepgorer “: England”.
- 60.** Yn adran 17ZD(**71**) (asesiadau o anghenion gofalwyr sy’n rhieni: Lloegr)—
- (a) yn is-adran (1) hepgorer “in England”;
 - (b) yn is-adran (14) hepgorer “in England”;

(67) 1989 p. 41 (“Deddf 1989”). Trosglwyddwyd swyddogaethau’r Ysgrifennydd Gwladol o dan Ddeddf 1989 i Gynulliad Cenedlaethol Cymru yn rhinwedd cynnwys Deddf 1989 yn Atodlen 1 i Orchymyn Cynulliad Cenedlaethol Cymru (Trosglwyddo Swyddogaethau) 1999 (O.S. 1999/672). Mae swyddogaethau Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf 1989 wedi eu trosglwyddo i Weinidogion Cymru yn rhinwedd paragraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

(68) Mewnosodwyd adran 14F gan adran 115(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(69) Mewnosodwyd adran 17(4) gan adran 39 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) a pharagraffau 1 a 2 o Atodlen 3 iddi.

(70) Mewnosodwyd adran 17ZA (ac mae’n gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr yn unig) gan adran 96(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(71) Mewnosodwyd adran 17ZD (ac mae’n gymwys i awdurdodau lleol yn Lloegr yn unig) gan adran 97(1) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

- (c) yn y pennawd hepgorer “: England”.
- 61.** Yn adran 17ZG(1)(a)(**72**) (gwasanaethau adran 17: parhau â darpariaeth pan fo cynllun addysg, iechyd a gofal yn cael ei gynnal) hepgorer “in England”.
- 62.** Yn adran 17ZH(**73**) (gwasanaethau adran 17: trosglwyddo plant i ofal a chymorth oedolion) —
- (a) yn is-adran (1) hepgorer “in England”;
- (b) yn is-adran (5) hepgorer “in England”.
- 63.** Yn adran 17ZI(1) (gwasanaethau adran 17: darparu ar ôl i gynllun addysg, iechyd a gofal beidio â chael ei gynnal mwyach) hepgorer “in England”.
- 64.** Yn adran 17A(1)(**74**) (taliadau uniongyrchol) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.
- 65.** Hepgorer adran 17B(**75**) (talebau i bersonau a chanddynt gyfrifoldeb rhiant dros blant anabl).
- 66.** Yn adran 18(**76**) (gofal dydd i blant cyn ysgol a phlant eraill)—
- (a) hepgorer is-adran (2);
- (b) hepgorer is-adran (6).
- 67.** Yn adran 20 (darparu llety i blant: cyffredinol)—
- (a) yn is-adran (2)(b) ar ôl “prescribed” mewnosoder “in regulations made by the Secretary of State”;
- (b) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—
- “(2A) Where a local authority in Wales provide accommodation under section 76(1) of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 (accommodation for children without parents or who are lost or abandoned etc.) for a child who is ordinarily resident in the area of a local authority in England, that local authority in England may take over the provision of accommodation for the child within—
- (a) three months of being notified in writing that the child is being provided with accommodation; or
- (b) such other longer period as may be prescribed in regulations made by the Secretary of State.”
- 68.** Yn adran 21(3)(**77**) (darparu llety i blant sy’n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd, etc.)—
- (a) ar ôl “local authority” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd mewnosoder “or by a local authority in Wales”;
- (b) ar ôl “local authority” yn yr ail le y mae’n digwydd mewnosoder “, or local authority in Wales,”.

(72) Mewnosodwyd adran 17ZG gan adran 50 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014.

(73) Mewnosodwyd adrannau 17ZH a 17ZI gan adran 66(1) o Ddeddf Gofal 2014 (p. 23).

(74) Amnewidiwyd adran 17A gan adran 58 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001 (p. 15); diwygiwyd is-adran (1) gan baragraffau 1 a 3 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23). Mae diwygiadau eraill i adran 17A nad ydynt yn berthnasol.

(75) Mewnosodwyd adran 17B gan adran 7(1) o Ddeddf Gofalwyr a Phlant Anabl 2000 (p. 16); fe’i diwygiwyd yn rhagolygol gan baragraffau 1 a 4 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) a chan baragraffau 43 a 47(1) o’r Atodlen i O.S. 2015/914.

(76) Diwygiwyd adran 18 gan baragraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Gofal Plant 2006 (p. 21).

(77) Diwygiwyd adran 21(3) gan baragraffau 47 ac 48 o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7); gan baragraffau 1 a 5 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23); gan baragraff 36(1) o Atodlen 9 i Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990 (p. 19); gan baragraff 20(1) a (2)(a) o’r Atodlen i O.S. 2007/961 (Cy. 85) a chan baragraff 24(1) a (3) o Atodlen 1 i O.S. 2000/90.

69. Yn adran 22 (dyletswydd gyffredinol awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal ganddynt)—

- (a) yn is-adran (1)(78) yn lle “In this Act” rhodder “In this section”;
- (b) yn is-adran (3B)(79) hepgorer “in England”;
- (c) yn is-adran (3C) hepgorer “in England”;
- (d) yn is-adran (7)(80)—
 - (i) yn lle “appropriate national authority”, yn y ddau le y mae'n ymddangos, rhodder “Secretary of State”, a
 - (ii) yn lle “the local authority” rhodder “the authority”.

70. Yn adran 22C(81) (y ffyrdd y mae plant sy'n derbyn gofal i gael eu lletya a'u cynnal)—

- (a) yn is-adran (9A)(82) hepgorer “are a local authority in England and”;
- (b) yn is-adran (11) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
- (c) yn lle is-adran (12) rhodder—

“(12) For the meaning of “local authority foster parent” see section 105(1).”

71. Yn lle adran 22E(83) (cartrefi plant a ddarperir gan awdurdod cenedlaethol priodol) rhodder—

“Children’s homes provided by Secretary of State or Welsh Ministers

22E. Where a local authority place a child they are looking after in a children’s home provided, equipped and maintained by the Secretary of State or the Welsh Ministers under section 82(5), they must do so on such terms as the Secretary of State or the Welsh Ministers (as the case may be) may from time to time determine.”

72. Yn adran 23ZA(3)(a)(84) (dyletswydd awdurdod lleol i sicrhau ymweliadau a chyswllt â phlant sy'n derbyn gofal ac eraill) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

73. Yn adran 23ZB(85) (ymwelwyr annibynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal gan awdurdod lleol)—

- (a) yn is-adran (1)(a) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
- (b) yn is-adran (9) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

74. Yn adran 23A(86) (yr awdurdod cyfrifol a phlant perthnasol)—

- (a) yn is-adran (2)(a) yn lle “by any local authority” rhodder “by any local authority in England or by any local authority in Wales”;
- (b) yn is-adran (3) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;

(78) Diwygiwyd adran 22(1) gan baragraff 19 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 (p. 22); gan adran 2 o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35) a chan adran 116(2) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(79) Mewnosodwyd is-adrannau (3B) a (3C) gan adran 99 o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(80) Diwygiwyd adran 22(7) gan baragraffau 1 a 6(c) o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(81) Rhoddwyd, ynghyd ag adrannau 22A, 22B a 22D i 22F, yn lle adran 23 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 8(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(82) Mewnosodwyd is-adrannau (9A) i (9C) gan adran 2(1) a (3) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(83) Rhoddwyd adran 22E, ynghyd ag adrannau 22A i 22D a 22F, yn lle adran 23 fel y'i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 8(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(84) Mewnosodwyd adran 23ZA gan adran 15 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(85) Mewnosodwyd adran 23ZB gan adran 16(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(86) Mewnosodwyd adran 23A gan adran 2(1) a (4) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan baragraffau 1 ac 8 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(c) yn is-adran (5) yn lle “appropriate national authority”, yn y ddau le y mae’n ymddangos, rhodder “Secretary of State”.

75. Yn adran 23B(10)(**87**) (swyddogaethau ychwanegol yr awdurdod cyfrifol mewn cysylltiad â phlant perthnasol) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

76. Yn adran 23C(5B)(**88**) (swyddogaethau sy’n parhau mewn cysylltiad â chyn-blant perthnasol) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

77. Yn adran 23CZA(1)(**89**) (trefniadau i gyn-blant perthnasol penodol barhau i fyw gyda chyn-rieni maeth) hepgorer “in England”.

78. Yn adran 23CA(1)(a)(**90**) (cynhorthwy pellach i ddilyn addysg neu hyfforddiant) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

79. Yn adran 23D(**91**) (cynghorwyr personol)—

(a) yn is-adran (1) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;

(b) yn is-adran (2) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

80. Yn adran 23E(**92**) (cynlluniau llwybr)—

(a) yn is-adran (1) ar ôl “prescribed” mewnosoder “in regulations made by the Secretary of State”;

(b) yn is-adran (1B) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;

(c) yn is-adran (2) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

81. Yn adran 24(**93**) (personau sy’n gymwys i gael cyngor a chynhorthwy)—

(a) yn is-adran (2)(a)(**94**) ar y diwedd mewnosoder “(without subsequently being looked after by a local authority in Wales)”;

(b) yn is-adran (2)(d)(ii)(**95**) ar y diwedd mewnosoder “, or by a local authority in Wales in the exercise of education functions”;

(c) yn is-adran (5)(za)(**96**) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

82. Yn adran 24A(**97**) (cyngor a chynhorthwy)—

(a) yn is-adran (2)(b) ar ôl “local authority,” mewnosoder “or local authority in Wales”;

(b) yn is-adran (3)(a) ar ôl “local authority” mewnosoder “(without subsequently being looked after by a local authority in Wales).”

(**87**) Mewnosodwyd 23B gan adran 2(1) a (4) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan adran 22(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23), paragraffau 1 a 9 o Atodlen 3 iddi ac Atodlen 4 iddi.

(**88**) Mewnosodwyd adran 22C gan adran 2(1) a (4) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35); mewnosodwyd is-adrannau (5A) i (5C) gan adran 21(1) a (2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**89**) Mewnosodwyd adran 23CZA gan adran 98(1) a (2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(**90**) Mewnosodwyd adran 23CA gan adran 22(1) a (2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**91**) Mewnosodwyd adran 23D gan adran 3 o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan adran 23(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) a pharagraffau 1 a 10 o Atodlen 3 iddi.

(**92**) Mewnosodwyd adran 23E gan adran 3 o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan adran 22 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23) a pharagraffau 1 ac 11 o Atodlen 3 iddi, a chan baragraff 65(1) a (2) o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (p. 6).

(**93**) Rhoddwyd adran 24, ynghyd ag adrannau 24A i 24C, yn lle adran 24 fel y’i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 4(1) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), a rhoddwyd adran 24(1) i (1B) yn lle adran 24(1) gan baragraffau 54 a 60(a) o Atodlen 3 i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(**94**) Diwygiwyd adran 24(2)(a) gan baragraffau 54 a 60(b) o Atodlen 3 i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(**95**) Diwygiwyd adran 24(2)(d) gan baragraffau 47 a 49 o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7); gan baragraffau 75 ac 76 o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), a chan baragraff 20(1) a (2)(b) o’r Atodlen i O.S. 2007/961 (Cy. 85); a chan baragraff 37(1) a (2) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158.

(**96**) Mewnosodwyd paragraff (za) gan baragraffau 54 a 60(c) o Atodlen 3 i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(**97**) Rhoddwyd adran 24A, ynghyd ag adrannau 24, 24B a 24C, yn lle adran 24 fel y’i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 4(1) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan baragraffau 54 ac 61 o Atodlen 3 i Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38); mae diwygiadau eraill nad ydynt yn berthnasol.

83. Yn adran 24B(6)(98) (cyflogaeth, addysg a hyfforddiant) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

84. Yn adran 24C(99) (gwybodaeth)—

(a) yn is-adran (1) ar ôl “area of another local authority” mewnosoder “, or in the area of a local authority in Wales”;

(b) yn lle is-adran (2)(100) rhodder—

“(2) Where a child who is accommodated in England—

(a) by a voluntary organisation or in a private children’s home;

(b) by or on behalf of any Local Health Board or Special Health Authority;

(c) by or on behalf of a clinical commissioning group or the National Health Service Commissioning Board;

(d) by or on behalf of a local authority in the exercise of education functions;

(e) by or on behalf of a local authority in Wales in the exercise of education functions;

(f) in any care home or independent hospital; or

(g) in any accommodation provided by or on behalf of a National Health Service trust or by or on behalf of an NHS Foundation Trust,

ceases to be so accommodated after reaching the age of 16, the person by whom or on whose behalf the child was accommodated or who carries on or manages the home or hospital (as the case may be) must inform the local authority or local authority in Wales within whose area the child proposes to live.”;

(c) yn is-adran (3) yn lle “paragraph (b) or (c)” rhodder “any of paragraphs (b) to (g)”;

(d) yn lle is-adran (4)(101) rhodder—

“(4) In a case where a child was accommodated by or on behalf of a local authority, or a local authority in Wales, in the exercise of education functions, subsection (2) applies only if the authority who accommodated the child is different from the authority within whose area the child proposes to live.”

85. Yn adran 24D(102) (sylwadau: adrannau 23A i 24B)—

(a) yn is-adran (1A)(103) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;

(b) yn is-adran (2) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

86. Yn adran 25(104) (defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid)—

(a) yn is-adran (1)—

(i) ar ôl “local authority” mewnosoder “or local authority in Wales”;

(98) Rhoddwyd adran 24B, ynghyd ag adrannau 24, 24A a 24C, yn lle adran 24 fel y’i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 4(1) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35), ac mae wedi ei diwygio gan baragraffau 1 a 13 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(99) Rhoddwyd adran 24C, ynghyd ag adrannau 24, 24A a 24B, yn lle adran 24 fel y’i deddfwyd yn wreiddiol, gan adran 4(1) o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35).

(100) Diwygiwyd adran 24C(2) gan baragraffau 47 a 50 o Atodlen 5 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2012 (p. 7); gan baragraffau 75 a 77 o Atodlen 4 i Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), a chan baragraff 20(1) a (2)(c) o’r Atodlen i O.S. 2007/961 (Cy. 85), a chan baragraff 37(1) a (3)(a) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158.

(101) Mewnosodwyd adran 24C(4) gan baragraff 37(1) a (3)(b) o Atodlen 2 i O.S. 2010/1158.

(102) Mewnosodwyd adran 24D gan adran 5 o Ddeddf Plant (Ymadael â Gofal) 2000 (p. 35).

(103) Mewnosodwyd adran 24D(1A) gan adran 117(1) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38), ac fe’i diwygiwyd gan baragraffau 1 a 14 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(104) Diwygiwyd adran 25 gan baragraffau 1 a 15 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23), a chan baragraff 38 o Atodlen 5 i Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyd 2012 (p. 10).

- (ii) ar ôl “accommodation” yn y lle cyntaf y mae’n digwydd mewnosoder “in England”;
- (b) yn is-adran (2) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
- (c) yn is-adran (2)(a)(i), (2)(a)(ii) a (2)(b) ar ôl “accommodation”, ym mhob lle y mae’n digwydd, mewnosoder “in England”;
- (d) yn is-adran (2)(c) ar ôl “local authorities” mewnosoder “or local authorities in Wales”;
- (e) yn is-adran (7) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
- (f) yn is-adran (7)(c) ar ôl “accommodation” mewnosoder “in England”.

87. Yn adran 25A(4)(**105**) (penodi swyddog adolygu annibynnol) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

88. Yn adran 25B(**106**) (swyddogaethau swyddog adolygu annibynnol)—

- (a) yn is-adrannau (1)(b), (1)(d) a (2)(a) yn lle “appropriate national authority”, ym mhob lle y mae’n digwydd, rhodder “Secretary of State”;
- (b) yn is-adran (3) hepgorer paragraff (b) a’r “or” yn union o flaen hynny.

89. Hepgorer adran 25C(2)(**107**) (achosion sydd wedi eu hatgyfeirio, rheoliadau o ran Cymru).

90. Yn adran 26(**108**) (adolygu achosion ac ymchwiliadau i sylwadau), yn y darpariaethau a ganlyn, yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”—

- (a) is-adran (1);
- (b) is-adran (3A);
- (c) is-adran (3B);
- (d) is-adran (3C);
- (e) is-adran (4A);
- (f) is-adran (5);
- (g) is-adran (6).

91. Hepgorer adran 26ZB(**109**) (sylwadau: ystyriaeth bellach (Cymru)).

92. Yn adran 26A(**110**) (gwasanaethau eirioli)—

- (a) hepgorer is-adran (2A)(**111**);
- (b) yn is-adrannau (3)(a) a (4)(**112**), yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”.

93. Yn adran 27 (cydweithredu rhwng awdurdodau)—

- (a) ar ôl is-adran (3)(d) mewnosoder—
“(da) any local authority in Wales,”;

(**105**) Mewnosodwyd adran 25A gan adran 10(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**106**) Mewnosodwyd adran 25B gan adran 10(1) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**107**) Mewnosodwyd adran 25C gan adran 10(2) o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**108**) Diwygiwyd is-adrannau (1), (5) a (6) o adran 26 gan baragraffau 1 ac 16 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23); mewnosodwyd is-adrannau (3A), (3B) a (4A) yn adran 26 gan adran 117(2), (4) a (5) o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38), a mewnosodwyd is-adran (3C) gan adran 117(1) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43).

(**109**) Mewnosodwyd adran 26ZB gan adran 116(2) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), ac fe’i diwygiwyd gan baragraffau 1 a 17 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(**110**) Mewnosodwyd adran 26A gan adran 119 o Ddeddf Mabwysiadu a Phlant 2002 (p. 38).

(**111**) Mewnosodwyd is-adran (2A) gan adran 116(3) o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd Cymunedol a Safonau) 2003 (p. 43), ac fe’i diwygiwyd gan baragraffau 9 ac 11 o Atodlen 14 i Ddeddf Addysg ac Arolygiadau 2006 (p. 40) a Rhan 5 o Atodlen 18 iddi.

(**112**) Diwygiwyd is-adrannau (3)(a) a (4) o adran 26A gan baragraffau 1 a 18 o Atodlen 3 i Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (p. 23).

(b) yn is-adran (3)(e)(113) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;

(c) ar ôl is-adran (3) mewnosoder—

“(3A) The Secretary of State must not authorise the Welsh Ministers under subsection (3)(e) without their consent.”

94. Yn adran 29 (adennill y gost o ddarparu gwasanaethau etc.)—

(a) yn is-adran (7) ar ôl “another local authority” mewnosoder “or the area of a local authority in Wales”;

291. Hefgorer adran 16(2) o Ddeddf Plant a Theuluoedd 2014 (diwygio adran 104A o Ddeddf Plant 1989).

Deddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (p. 12)

292. Ym mharagraff 4 o Atodlen 2 i Ddeddf Ymddygiad Gwrthgymdeithasol, Troseddu a Phlisma 2014 (gofynion gweithgareddau sy'n ymwneud â gorchmynion goruchwyllo), yn is-baragraff (14)(b), ar ôl “1970” mewnosoder “in relation to a local authority in England or for the purposes of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014 in relation to a local authority in Wales”.

Deddf Gofal 2014 (p. 23)

293. Yn adran 62 o Ddeddf Gofal 2014 (pŵer i ddiwallu anghenion gofalwr plentyn am gymorth) yn is-adran (3) yn lle “under section 17 of the Children Act 1989.” rhodder—

“under—

- (a) section 17 of the Children Act 1989, or
- (b) sections 37 to 39 of the Social Services and Well-being (Wales) Act 2014.”

Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (dccc 4)

294. Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

295. Yn is-adran (2)(h) o adran 15 (gwasanaethau ataliol) ar ôl “llety diogel” mewnosoder “o fewn yr ystyr a roddir yn adran 119 ac o fewn yr ystyr a roddir i “secure accommodation” yn adran 25 o Ddeddf Plant 1989”.

296. Yn adran 37(4) (dyletswydd i ddiwallu anghenion gofal a chymorth plentyn) ar ôl “hysbysu am blentyn o dan adran 120(2)(a)” mewnosoder “neu o dan adran 85(1) o Ddeddf Plant 1989 (plant sy'n cael eu lletya gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg lleol)”.

297. Yn adran 53 (taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach)—

- (a) hepgorer is-adran (11) o'r testun Saesneg(207);
- (b) ar ôl is-adran (10) mewnosoder y canlynol—

“(11) Mae'r ffyrdd y caiff awdurdod lleol gyflawni ei ddyletswydd o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn cynnwys drwy wneud taliadau uniongyrchol; ac at y

diben hwnnw mae Atodlen A1 (sy'n cynnwys addasiadau i adrannau 50 a 51 a'r adran hon) yn cael effaith.”

298. Yn adran 58(1) (gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi), ym mharagraff (a) yn lle “neu ei dderbyn i ysbyty” rhodder “, pan fo'n cael ei dderbyn i ysbyty”.

299. Yn adran 76 (llety i blant sydd heb rieni, neu blant sydd ar goll neu sydd wedi eu gadael etc) ar ôl is-adran (2) mewnosoder—

“(2A) Pan fo awdurdod lleol yn Lloegr yn darparu llety o dan adran 20(1) o Ddeddf Plant 1989 (darparu llety i blant: cyffredinol) i blentyn sy'n preswyllo fel arfer mewn ardal awdurdod lleol yng Nghymru, caiff yr awdurdod lleol hwnnw yng Nghymru gymryd drosodd y gwaith o ddarparu llety i'r plentyn o fewn—

(a) tri mis o gael ei hysbysu'n ysgrifenedig fod llety'n cael ei ddarparu i'r plentyn, neu

(b) unrhyw gyfnod hirach arall a bennir.”

300. Yn adran 77 (llety i blant sy'n cael eu hamddiffyn gan yr heddlu, neu sydd o dan gadwad neu ar remánd etc)—

(a) yn is-adran (4)(b)(i) ar ôl “awdurdod lleol” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”;

(b) yn is-adran (5) ar ôl “awdurdod lleol” mewnosoder “neu'r awdurdod lleol yn Lloegr”.

301. Yn lle adran 86 (cartrefi plant sy'n cael eu darparu, eu cyfarparu a'u cynnal gan Weinidogion Cymru) rhodder—

“Cartrefi plant sy'n cael eu darparu, eu cyfarparu a'u cynnal gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol

86. Pan fo awdurdod lleol yn lleoli plentyn y mae'n gofalu amdano mewn cartref plant y mae Gweinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol yn ei ddarparu, ei gyfarparu ac yn ei gynnal o dan adran 82(5) o Ddeddf Plant 1989, rhaid iddo wneud hynny ar y telerau a'r amodau a ddyfernir o bryd i'w gilydd gan Weinidogion Cymru neu'r Ysgrifennydd Gwladol (yn ôl y digwydd).”

302. Yn adran 93(1) (rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol) ym mharagraff (a) ar ôl “yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu bersonau eraill”.

303. Yn adran 95(4) (hyrwyddo a chynnal cyswllt rhwng plentyn a theulu) yn lle “oddi wrth awdurdod lleol arall (“yr awdurdod trosglwyddo”) o dan adran 76” rhodder “oddi wrth awdurdod lleol neu awdurdod lleol yn Lloegr o dan adran 76 (“yr awdurdod trosglwyddo”)”.

304. Yn adran 119 (defnyddio llety i gyfyngu ar ryddid)—

(a) yn is-adran (2)(c) ar ôl “awdurdod lleol” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”;

(b) yn is-adran (6) yn lle'r geiriau o “gynrychiolaeth a fyddai'n cael ei ariannu gan” i “Gwasanaeth Amddiffyn Troseddol” rhodder “y ddarpariaeth o gynrychiolaeth o dan Ran 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012”;

(c) ar ôl is-adran (10) mewnosoder—

“(11) Bydd gorchymyn a wneir o dan yr adran hon mewn perthynas â plentyn, pe byddai fel arall yn parhau i fod mewn grym, yn peidio â chael effaith pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed.”

305. Yn adran 120(5) (asesu plant y mae llety'n cael ei ddarparu iddynt gan awdurdodau ieuchyd ac awdurdodau addysg) ar ôl “awdurdod lleol wedi ei hysbysu o dan yr adran hon” mewnosoder “, neu o dan adran 85 o Ddeddf Plant 1989 (asesu plant sy'n cael eu lletya gan awdurdodau ieuchyd ac awdurdodau addysg)”.

306. Yn adran 122 (ymwelwyr â phlant yr hysbysir awdurdod lleol amdanynt o dan adran 120 neu 121)—

- (a) yn is-adran (1)(a) ar ôl “adran 120(2)(a) neu 121(2)(a),” mewnosoder “neu o dan adran 85(1) o Ddeddf Plant 1989 (plant sy’n cael eu lletya gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg lleol),”;
- (b) yn is-adran (1)(b) ar ôl “adran 120(2)(b) neu adran 121(2)(b)” mewnosoder “, neu o dan adran 85(2) o Ddeddf Plant 1989”;
- (c) yn y pennawd hepgorer “o dan adran 120 neu 121”.

307. Yn adran 123 (gwasanaethau i blant yr hysbysir awdurdod lleol amdanynt o dan adran 120 neu 121)—

- (a) yn is-adran (1) ar ôl “adran 120 neu 121” mewnosoder “, neu o dan adran 85 o Ddeddf Plant 1989 (plant sy’n cael eu lletya gan awdurdodau iechyd ac awdurdodau addysg lleol)”;
- (b) yn y pennawd hepgorer “o dan adran 120 neu 121”.

308. Ar ôl adran 125 (marwolaeth plant sy’n derbyn gofal gan awdurdodau lleol) mewnosoder—

“Awdurdodaeth a gweithdrefn

Awdurdodaeth llysoedd

125A. At ddibenion y Rhan hon, ystyr “llys” (“*court*”) yw’r Uchel Lys neu lys teulu.

Rheolau llys

125B.—(1) Caiff awdurdod sydd â’r pŵer i wneud rheolau llys wneud unrhyw ddarpariaeth ar gyfer rhoi effaith i—

- (a) y Rhan hon, neu
- (b) darpariaethau unrhyw offeryn statudol a wneir o dan y Rhan hon,

yr ymddengys i’r awdurdod hwnnw ei bod yn angenrheidiol neu’n hwylus.

(2) Mae adran 93 o Ddeddf Plant 1989 (rheolau llys) yn gymwys i reolau a wneir yn unol â’r adran hon fel y mae’n gymwys i reolau a wneir yn unol â’r adran honno.

Caiff y rheolau, yn benodol, wneud darpariaeth—

- (a) mewn cysylltiad â’r weithdrefn sydd i’w dilyn mewn unrhyw achos perthnasol (gan gynnwys y modd y mae unrhyw gais i gael ei wneud neu y mae achos arall i gael ei ddechrau);
- (b) o ran y personau sydd â hawlogaeth i gymryd rhan mewn unrhyw achos perthnasol, p’un ai fel partïon i’r achos neu drwy gael y cyfle i gyflwyno sylwadau i’r llys;
- (c) i blant gael eu cynrychioli ar wahân mewn achos perthnasol;
- (d) o ran y dogfennau a’r wybodaeth sydd i’w darparu, a’r hysbysadau sydd i’w rhoi, mewn cysylltiad ag unrhyw achos perthnasol;
- (e) mewn cysylltiad â gwrandauiadau rhagarweiniol;
- (f) sy’n galluogi’r llys, o dan unrhyw amgylchiad a ragnodir, i barhau ag unrhyw gais er nad yw hysbysiad o’r achos wedi ei roi i’r ymatebydd.

(3) Yn is-adran (2)—

ystyr “a ragnodir” (“*prescribed*”) yw wedi ei ragnodi gan y rheolau;

ystyr “achos perthnasol” (“*relevant proceedings*”) yw unrhyw gais a wneir, neu achos a ddygir, o dan unrhyw un neu ragor o’r darpariaethau a grybwyllir ym mharagraffau (a) i (c) o is-adran (1) ac unrhyw ran o achos o’r fath; ac

ystyr “hysbysiad o achos” (“*notice of proceedings*”) yw gwŷs neu unrhyw hysbysiad arall o achos sy’n ofynnol; ac ystyr “rhoi” (“*given*”), mewn perthynas â gwŷs, yw “cyflwyno” (“*served*”).

(4) Nid yw’r adran hon nac unrhyw bŵer arall yn y Ddeddf hon i wneud rheolau llys i gael ei gymryd fel pe bai’n cyfyngu mewn unrhyw ffordd ar unrhyw bŵer arall sydd gan yr awdurdod o dan sylw i wneud rheolau llys.

(5) Wrth wneud unrhyw reolau o dan yr adran hon, bydd yr awdurdod yn ddarostyngedig i’r un gofyniad o ran ymgynghori (os oes un) ag sy’n gymwys pan fydd yr awdurdod yn gwneud rheolau o dan ei bŵer cyffredinol i wneud rheolau.

Preifatrwydd i blant sy’n rhan o achosion o dan y Rhan hon

125C. Mae adran 97 o Ddeddf Plant 1989 (preifatrwydd i blant sy’n rhan o achosion penodol) yn gymwys mewn perthynas â phlant sy’n rhan o achosion o dan y Rhan hon fel y mae’n gymwys mewn perthynas â phlant sy’n rhan o unrhyw achos o dan y Ddeddf honno.

125D.—(1) Rhaid i berson beidio â chyhoeddi i’r cyhoedd yn gyffredinol, nac i unrhyw ran o’r cyhoedd, unrhyw ddeunydd y bwriedir iddo sicrhau bod modd adnabod, neu sy’n debygol o olygu bod modd adnabod—

(a) unrhyw blentyn sy’n rhan o unrhyw achos gerbron yr Uchel Lys neu’r llys teulu y caiff unrhyw bŵer o dan y Ddeddf hon ei arfer ynddo gan y llys mewn cysylltiad ag unrhyw blentyn; neu

(b) cyfeiriad neu ysgol fel un plentyn sy’n rhan o unrhyw achos o’r fath.

(2) Mewn unrhyw achos am drosedd o dan yr adran hon, mae’n amddiffyniad i’r sawl a gyhuddir brofi nad oedd yn gwybod, ac nad oedd ganddo unrhyw reswm dros amau, fod y deunydd a gyhoeddwyd wedi ei fwriadu i sicrhau bod modd adnabod y plentyn, neu’n debygol o olygu bod modd adnabod y plentyn.

(3) Caiff y llys neu’r Arglwydd Ganghellor, os yw wedi ei fodloni bod lles y plentyn yn gwneud hynny yn ofynnol ac, yn achos yr Arglwydd Ganghellor, os yw’r Arglwydd Brif Ustus yn cytuno, drwy orchymyn hepgor gofynion is-adran (1) i’r graddau hynny a bennir yn y gorchymyn.

(4) At ddibenion yr adran hon—

mae “cyhoeddi” (“*publish*”) yn cynnwys—

(a) cynnwys mewn gwasanaeth rhaglenni (o fewn yr ystyr a roddir i “programme service” yn Neddf Darlledu 1990);

(b) achosi i’r deunydd gael ei gyhoeddi; ac

mae “deunydd” (“*material*”) yn cynnwys unrhyw lun neu gynrychiolaeth.

(5) Mae unrhyw berson sy’n mynd yn groes i’r adran hon yn euog o drosedd ac yn agored, o’i gollfarnu’n ddiannod, i ddirwy nad yw’n uwch na lefel 4 ar y raddfa safonol.

(6) Caiff yr Arglwydd Brif Ustus enwebu deiliad swydd farnwrol (fel y diffinnir “judicial office holder” yn adran 109(4) o Ddeddf Diwygio Cyfansoddiadol 2005) i arfer ei swyddogaethau o dan is-adran (3).”

309. Yn adran 134(2)(d) (byrddau diogelu plant a byrddau diogelu oedolion) yn lle “ymddiriedolaeth GIG” rhodder “Ymddiriedolaeth GIG”.

310. Yn adran 162(4)(f) (trefniadau i hyrwyddo cydweithrediad: oedolion y mae arnynt anghenion am ofal a chymorth a gofalwyr) yn lle “ymddiriedolaeth GIG” rhodder “Ymddiriedolaeth GIG”.

311. Yn adran 164(4)(b) (dyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) yn lle “ymddiriedolaeth GIG” rhodder “Ymddiriedolaeth GIG”.

312. Ar ôl adran 164 (dyletswydd i gydweithredu a darparu gwybodaeth wrth arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol) mewnosoder—

“Dyletswydd personau eraill i gydweithredu a darparu gwybodaeth

164A.—(1) Os yw awdurdod lleol yn gofyn am gydweithrediad person a grybwyllir yn is-adran (4) wrth arfer ei swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (5), rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud felly—

- (a) yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun, neu
- (b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau.

(2) Os yw awdurdod lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (4) ddarparu gwybodaeth iddo y mae ei hangen arno er mwyn arfer unrhyw un neu rai o'i swyddogaethau a grybwyllir yn is-adran (5), rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai ei fod o'r farn y byddai gwneud felly—

- (a) yn anghydnaws â'i ddyletswyddau ei hun, neu
- (b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer ei swyddogaethau.

(3) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) neu (2) roi i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais resymau ysgrifenedig dros y penderfyniad.

(4) Y personau yw—

- (a) awdurdod lleol yn Lloegr;
- (b) awdurdod tai lleol yn Lloegr;
- (c) Bwrdd Comisiynu'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol;
- (d) unrhyw grŵp comisiynu clinigol, Awdurdod Iechyd Arbennig, Ymddiriedolaeth Sefydledig GIG, neu ymddiriedolaeth GIG yn Lloegr a sefydlwyd o dan adran 25 o Ddeddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol 2006;
- (e) unrhyw bersonau eraill—
 - (i) a bennir gan reoliadau, neu
 - (ii) o ddisgrifiad a bennir gan reoliadau.

(5) Y swyddogaethau yw—

- (a) swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan adran 14F o Ddeddf Plant 1989 (gwasanaethau cynnal gwarcheidiaeth arbennig);
- (b) unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â diogelu a hyrwyddo llesiant plant a phobl ifanc, yn benodol y rhai hynny y mae arnynt anghenion gofal a chymorth, a'u teuluoedd ac eraill;
- (c) unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â phlant sy'n derbyn gofal a phlant sy'n cael eu lletya;
- (d) unrhyw un neu rai o swyddogaethau'r awdurdod lleol mewn perthynas â phobl ifanc sydd â'r hawlogaeth i gael cymorth o dan adrannau 105 i 115.

(6) Ni chaniateir i reoliadau o dan is-adran (4)(e) bennu'r personau a ganlyn heb gydsyniad yr Ysgrifennydd Gwladol—

- (a) un o Weinidogion y Goron, na
- (b) llywodraethwr carchar neu ganolfan hyfforddi ddiogel (neu yn achos carchar sydd wedi ei contractio allan neu ganolfan hyfforddi ddiogel sydd wedi ei chontractio allan, y cyfarwyddwr).

(7) Yn yr adran hon, ystyr “awdurdod tai lleol” yw awdurdod tai lleol o fewn yr ystyr a roddir i “local housing authority” yn Neddf Tai 1985.”

313. Yn adran 166(2)(b)(ii) (trefniadau partneriaeth), yn lle “ymddiriedolaeth GIG” rhodder “Ymddiriedolaeth GIG”.

314. Yn adran 190 (methiant darparwr: eithriad i'r ddyletswydd dros dro), ym mharagraff (d) o is-adran (1), hepgorer is-baragraff (i).

315. Yn adran 193 (adennill costau rhwng awdurdodau lleol)—

- (a) yn is-adran (3) ar ôl “awdurdod lleol arall” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”;
- (b) yn is-adran (4) ar ôl “awdurdod lleol arall” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”;
- (c) yn is-adran (6)—
 - (i) yn lle “is-adran (7)” rhodder “is-adran (7) neu (8)”;
 - (ii) ar ôl “o dan adran 164(1) neu (2)” mewnosoder “, neu o dan adran 27(2) o Ddeddf Plant 1989 (cydweithredu rhwng awdurdodau),”;
 - (iii) ar ôl “yr awdurdod lleol” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”;
- (d) ar ôl is-adran (7) mewnosoder—

“(8) Pan fo awdurdod lleol (“awdurdod A”) yn cydymffurfio ag unrhyw gais o dan adran 27(2) o Ddeddf Plant 1989 (cydweithredu rhwng awdurdodau) gan awdurdod lleol yn Lloegr (“awdurdod B”) mewn perthynas â pherson—

- (a) ac awdurdod B yw ei awdurdod cyfrifol (o fewn ystyr Rhan 3 o'r Ddeddf honno) at ddibenion adran 23B neu 23C o'r Ddeddf honno, neu
- (b) y mae awdurdod B yn ei gynghori neu'n ymgyfeillio ag ef neu y mae'n rhoi cynhorthwy iddo yn rhinwedd adran 24(5)(a) o'r Ddeddf honno,

caiff awdurdod A adennill oddi wrth awdurdod B unrhyw dreuliau rhesymol a dynnwyd ganddo wrth arfer ei swyddogaethau o dan adrannau 105 i 115 o'r Ddeddf hon mewn cysylltiad â'r person hwnnw.”

316. Yn adran 194 (preswylfa arferol)

- (a) ar ôl is-adran (4) mewnosoder—

“(4A) Mae person y mae llety'n cael ei ddarparu iddo o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) i'w drin at ddibenion y Ddeddf hon fel un sy'n preswyllo fel arfer yn ardal yr awdurdod lleol, neu'r awdurdod lleol yn Lloegr, y mae'r ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau i'r person hwnnw o dan yr adran honno wedi ei gosod arno.”;

- (b) hepgorer is-adran (4A) o'r testun Saesneg**(208)**.

317. Yn adran 195 (anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth) ar ôl is-adran (1) mewnosoder—

(208) Mae adran 194(4A) wedi ei mewnosod gan adran 75(10) o Ddeddf Gofal 2014 (p. 23) ac fe'i deddfwyd yn Saesneg yn unig.

“(1A) Pan fo anghydfod yn un y mae adran 30(2C) o Ddeddf Plant 1989 yn gymwys iddo (cwestiynau ynghylch pa un a yw plentyn yn preswyllo fel arfer yng Nghymru neu Loegr), yna nid yw is-adran (1) yn gymwys.”

318. Ar ôl adran 195 mewnosoder—

“Troseddau a gyflawnir gan gyrff neu bartneriaethau

195A.—(1) Pan fo corff corfforaethol yn euog o drosedd o dan y Ddeddf hon, a phrofir bod y drosedd honno wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad y canlynol, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran y canlynol—

- (a) unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog tebyg arall yn y corff corfforaethol; neu
- (b) unrhyw berson sy'n honni ei fod yn gweithredu yn rhinwedd unrhyw swydd o'r fath,

mae'r person hwnnw, yn ogystal â'r corff corfforaethol, yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(2) At ddibenion yr adran hon, ystyr “cyfarwyddwr” (“*director*”) mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau yw aelod o'r corff corfforaethol.

(3) Mae achos am drosedd yr honnir ei bod wedi ei chyflawni o dan y Ddeddf hon gan gorff anghorfforedig i gael ei ddwyn yn enw'r corff hwnnw (ac nid yn enw unrhyw un neu rai o'i aelodau) ac, at ddibenion unrhyw achos o'r fath, mae unrhyw reolau llys sy'n ymwneud â chyflwyno dogfennau yn cael effaith fel pe bai'r corff hwnnw yn gorfforaeth.

(4) Mae unrhyw ddirwy a osodir ar gorff anghorfforedig pan y'i collferir o drosedd o dan y Ddeddf hon i'w thalu allan o gronfeydd y corff hwnnw.

(5) Os caiff corff anghorfforedig ei gyhuddo o drosedd o dan y Ddeddf hon, mae adran 33 o Ddeddf Cyfiawnder Troseddol 1925 (p. 86) ac Atodlen 3 i Ddeddf Llysoedd Ynadon 1980 (p. 43) yn cael effaith fel pe bai corfforaeth wedi ei chyhuddo.

(6) Pan brofir bod trosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnir gan gorff anghorfforedig (ac eithrio partneriaeth) wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad unrhyw swyddog o'r corff neu unrhyw aelod o'i gorff llywodraethu, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran unrhyw swyddog o'r fath neu unrhyw aelod o'r fath, mae'r person hwnnw yn ogystal â'r corff yn euog o drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.

(7) Pan brofir bod trosedd o dan y Ddeddf hon a gyflawnir gan bartneriaeth neu bartneriaeth yn yr Alban wedi ei chyflawni gyda chydsyniad neu ymoddefiad partner, neu y gellir ei phriodoli i unrhyw esgeulustod ar ran partner, mae'r partner hwnnw (yn ogystal â'r bartneriaeth) yn euog o'r drosedd ac yn agored i achos gael ei ddwyn yn ei erbyn ac i gael ei gosbi yn unol â hynny.”

319. Yn adran 197 (dehongli cyffredinol a mynegai o ymadroddion a ddiffiniwyd)—

(a) yn is-adran (1) yn lle'r diffiniad o “rhiant maeth awdurdod lleol” rhodder—

“ystyr “rhiant maeth awdurdod lleol” (“*local authority foster parent*”) yw person sydd wedi ei awdurdodi felly yn unol â rheoliadau a wneir yn rhinwedd—

- (a) adrannau 87 a 93;
- (b) paragraff 12F o Atodlen 2 i Ddeddf Plant 1989 (rheoliadau sy'n darparu ar gyfer cymeradwyo rhieni maeth awdurdod lleol);”;

(b) yn lle is-adran (2)(b) rhodder—

“(b) mae i gyfeiriad at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr yr ystyr a roddir i gyfeiriad yn adran 22 o Ddeddf Plant 1989 at blentyn sy’n derbyn gofal gan awdurdod lleol yn Lloegr.”

320. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 3 (gorchmynion cyfraniadau) ar y diwedd mewnosoder—

“(12) Bydd gorchymyn cyfrannu mewn perthynas â phlentyn, pe byddai fel arall yn parhau mewn grym, yn peidio â chael effaith pan fydd y plentyn yn cyrraedd 18 oed.”

321. Yn Atodlen 1, ym mharagraff 4 (gorfodi gorchmynion cyfraniadau)—

(a) hepgorer is-baragraffau (1) a (2);

(b) yn is-baragraff (3) ar ôl “unrhyw awdurdod lleol arall” mewnosoder “neu awdurdod lleol yn Lloegr”.

322. Hepgorer Atodlen A1 o’r testun Saesneg(209).

323. O flaen Atodlen 1 mewnosoder y canlynol—

“Atodlen A1

Taliadau Uniongyrchol: Ôl-ofal o dan Ddeddf Iechyd Meddwl 1983

Cyffredinol

1. Mae adran 50 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion oedolyn), 51 (taliadau uniongyrchol i ddiwallu anghenion plentyn) a 53 (taliadau uniongyrchol: darpariaeth bellach) yn gymwys mewn perthynas ag adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 ond fel pe bai’r addasiadau a ganlyn wedi eu gwneud i’r adrannau hynny.

Addasiadau i adran 50

2. Yn lle is-adran (1) o adran 50 rhodder—

“(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i oedolyn y mae adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy’n gyfatebol i’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i’r oedolyn o dan yr adran honno.”

3. Yn is-adran (3) o’r adran honno—

(a) ym mharagraff (a), yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth (“A”)” rhodder “mewn cysylltiad â darparu i’r oedolyn (“A”) wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”, a

(b) ym mharagraff (c)(i), yn lle “o ddiwallu anghenion A” rhodder “o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

4. Yn is-adran (4) o’r adran honno—

(a) ym mharagraff (a), yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth (“A”)” rhodder “y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo (“A”)”, a

(b) ym mharagraff (d)(i) yn lle “o ddiwallu anghenion A” rhodder “o gyflawni ei ddyletswydd tuag at A o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

5. Yn is-adran (5) o’r adran honno—

(209) Mae Atodlen A1 wedi ei mewnosod gan adran 75(9) o Ddeddf Gofal 2014 (p. 23) a Rhan 2 o Atodlen 4 iddi a ddeddfwyd yn Saesneg yn unig.

- (a) ym mharagraff (a), yn lle “anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”, a
- (b) ym mharagraff (b), yn lle “tuag at y gost o ddiwallu anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “sy’n gyfatebol i’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

6. Yn is-adran (6)(b) o’r adran honno, yn lle “anghenion A am ofal a chymorth” rhodder “darparu i A wasanaethau ôl-ofal o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

Addasiadau i adran 51

7. Yn lle is-adran (1) o adran 51 rhodder—

“(1) Caiff rheoliadau ei gwneud yn ofynnol neu ganiatáu i awdurdod lleol wneud taliadau i berson mewn cysylltiad â plentyn y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) yn gymwys iddo sy’n gyfatebol i’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal i’r plentyn o dan yr adran honno.”

8. Yn is-adran (3)(a) a (b) o’r adran honno, yn lle “y mae arno anghenion am ofal a chymorth” (ym mhob lle y mae’n digwydd) rhodder “y mae adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 yn gymwys iddo”.

9. Yn is-adran (5)(a) o’r adran honno, yn lle “ddiwallu anghenion y plentyn” rhodder “gyflawni ei ddyletswydd tuag at y plentyn o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983”.

Addasiadau i adran 53

10. Yn is-adran (1) o adran 53—

- (a) yn y geiriau agoriadol, yn lle “50, 51 neu 52” rhodder “50 neu 51”,
- (b) hepgorer paragraffau (a), (b) ac (c),
- (c) ym mharagraff (i), yn lle “y disodlir odanynt ddyletswydd neu bŵer awdurdod lleol i ddiwallu anghenion person am ofal a chymorth, neu anghenion gofalwr am gymorth, drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y disodlir y ddyletswydd honno neu’r pŵer hwnnw” rhodder “y cyflawnir odanynt ddyletswydd awdurdod lleol o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal), drwy wneud taliadau uniongyrchol, ac i ba raddau y cyflawnir y ddyletswydd honno”, a
- (d) ym mharagraff (k), yn lle “50 i 52” rhodder “50 neu 51”.

11. Hepgorer is-adrannau (2) i (8) o’r adran honno.

12. Ar ôl is-adran (8) o’r adran honno mewnosoder—

“(8A) Rhaid i reoliadau a weir o dan adrannau 50 a 51 bennu bod rhaid i daliadau uniongyrchol i dalu’r gost o ddarparu neu drefnu i ddarparu gwasanaethau ôl-ofal o dan adran 177 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983 (ôl-ofal) gael eu gwneud ar raddfa y mae’r awdurdod lleol yn amcangyfrif ei bod yn gyfatebol i’r gost resymol o sicrhau’r ddarpariaeth o’r gwasanaethau hynny i ddiwallu’r anghenion hynny.”

13. Yn is-adran (9) o’r adran honno—

- (a) yn lle “, 51 neu 52” rhodder “neu 51”, a
- (b) yn lle “gofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth)” rhodder “gwasanaethau ôl-ofal”.

14. Yn lle is-adran (10) o’r adran honno, yn lle “ofal a chymorth (neu, yn achos gofalwr, gymorth) i ddiwallu anghenion” rhodder “wasanaethau ôl-ofal”.

324. Yn Atodlen 2—

- (a) yn yr ail golofn o'r cofnod sy'n ymwneud â Deddf Iechyd y Cyhoedd (Rheoli Clefydau) 1984, yn lle "Ran 2" rhodder "Ran 4";
- (b) yn y golofn gyntaf o'r cofnod sy'n ymwneud â Deddf Personau Anabl (Gwasanaethau, Ymgynghori a Chynrychioli) 1986, yn lle "Adrannau 1 i 3 a 5(5)" rhodder "Adrannau 1, 2 a 5(5)";
- (c) yn lle'r cofnod sy'n ymwneud â Deddf Plant 1989 rhodder—

"Deddf Plant 1989

Y Ddeddf gyfan i'r graddau y mae'n rhoi swyddogaethau i awdurdod lleol yng Nghymru o fewn ystyr y Ddeddf ac eithrio—

- (a) Rhan 3 ac Atodlen 2 (cymorth awdurdod lleol i blant a theuluoedd);
- (b) adran 36 a pharagraffau 12 i 19(1) o Atodlen 3 (gorchmynion goruchwylio addysg).

Adroddiadau lles; cydsynio i gais am orchymyn preswyllo mewn cysylltiad â phlentyn mewn gofal; swyddogaethau sy'n ymwneud â gorchmynion gwarcheidiaeth arbennig; gorchmynion cymorth teulu; gofal a goruchwylio; amddiffyn plant; swyddogaethau mewn perthynas â chartrefi cymunedol, cartrefi gwirfoddol a sefydliadau gwirfoddol, cartrefi plant preifat, a threfniadau preifat ar gyfer maethu plant; arolygu cartrefi plant ar ran Gweinidogion Cymru; ymchwil a dychwelebau gwybodaeth.";

- (d) ar ôl y cofnod sy'n ymwneud â Deddf Plant 1989 mewnosoder—

"Deddf y Gwasanaeth Iechyd Gwladol a Gofal yn y Gymuned 1990
Adran 47

Asesiad o anghenion am wasanaethau o dan adran 117 o Ddeddf Iechyd Meddwl 1983.";

- (e) yn y cofnod sy'n ymwneud â Mesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, ar ôl y cofnod sy'n ymwneud ag adran 66 mewnosoder—

"Adran 67

Y ddarpariaeth o wasanaethau gofal perthnasol o fewn ystyr yr adran honno."

Darpariaethau trosiannol ac arbed

- 325.** Mae'r Atodlen (sy'n cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed) yn cael effaith.

Cyffredinol

- 326.** Nid yw'r Rheoliadau hyn yn effeithio ar weithrediad erthygl 3(1) neu (3) o Orchymyn Deddf Gofal 2014 a Deddf Plant a Theuluoedd 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2015(**210**).

19 Mawrth 2016

Mark Drakeford
Y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau
Cymdeithasol, un o Weinidogion Cymru

YR ATODLEN

Rheoliad 325

Darpariaethau trosiannol ac arbed

Dehongli**1. Yn yr Atodlen hon—**

ystyr “Deddf 1948” (“*the 1948 Act*”) yw Deddf Cymorth Gwladol 1948(211);

ystyr “Deddf 1983” (“*the 1983 Act*”) yw Deddf Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a Dyfarniadau Nawdd Cymdeithasol 1983(212);

ystyr “Deddf 2001” (“*the 2001 Act*”) yw Deddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol 2001(213);

ystyr “Deddf 2004” (“*the 2004 Act*”) yw Deddf Plant 2004(214);

ystyr “Deddf 2013” (“*the 2013 Act*”) yw Deddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013(215);

ystyr “y Ddeddf” (“*the Act*”) yw Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.

Adran 26 o Ddeddf Plant 1989

2. Yn unol â'r ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn erthygl 3 o Orchymyn Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 (Cychwyn Rhif 8 a Darpariaeth Arbed) (Cymru) 2016(216) ac er gwaethaf y ddarpariaeth sydd wedi ei gwneud yn rheoliad 90, mae adran 26 o Ddeddf Plant 1989 yn parhau i gael effaith heb ei diwygio at ddibenion paragraff 10(2)(1) o'r Ddeddf honno (rheoliadau o ran lleoli plant mewn cartrefi preifat i blant).

Darpariaethau trosiannol ac arbed cyffredinol

3.—(1) Er gwaethaf y diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan y Rheoliadau hyn, ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) caniateir i gymorth neu wasanaethau barhau i gael eu darparu, a

(b) caniateir i daliadau tuag at gost cymorth neu wasanaethau barhau i gael eu gwneud,

yn achos person y mae cymorth neu wasanaethau yn cael eu darparu iddo neu mewn perthynas ag ef, neu y mae taliadau yn cael eu gwneud iddo neu mewn perthynas ag ef tuag at gost cymorth neu wasanaethau, yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Mae is-baragraff (1) yn gymwys—

(a) hyd nes y bydd Rhan 4 o'r Ddeddf yn gymwys mewn perthynas â darparu cymorth neu wasanaethau, neu wneud taliadau tuag at gost cymorth neu wasanaethau, yn achos y person hwnnw yn rhinwedd darpariaeth drosiannol sydd wedi ei gwneud mewn gorchymyn o dan adran 199(2) o'r Ddeddf (cychwyn), neu

(b) os yw'n gynharach, tan 31 Mawrth 2017.

(3) Er gwaethaf y diwygiadau sydd wedi eu gwneud gan y Rheoliadau hyn—

(211) 1948 p. 29.

(212) 1983 p. 41.

(213) 2001 p. 15.

(214) 2004 p. 31.

(215) 2013 decc 1.

(216) O.S. 2016/452 (Cy. 142) (C. 22). Mae erthygl 3 yn gwneud darpariaeth sy'n darparu bod adran 26 o Ddeddf Plant 1989 (p. 41), er gwaethaf y diwygiadau sydd wedi eu gwneud i'r adran honno gan fod y ddarpariaeth o fewn adran 10 o Ddeddf Plant a Phobl Ifanc 2008 wedi dod i rym, yn parhau i gael effaith heb ei diwygio at ddibenion gwneud rheoliadau o dan baragraff 10(2)(1) o Atodlen 6 i'r Ddeddf honno (rheoliadau o ran lleoli plant mewn cartrefi preifat i blant).

(a) mae unrhyw ddarpariaeth sy'n gweithredu mewn perthynas â chymorth neu wasanaethau a ddarperir, neu drwy gyfeirio atynt, neu daliadau a wneir tuag at gost cymorth neu wasanaethau, cyn neu (yn unol ag is-baragraff (1)) ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, a

(b) mae unrhyw beth a wneir o dan y ddarpariaeth honno,

yn parhau i gael effaith at ddiben y cymorth hwnnw neu'r gwasanaethau neu'r taliadau hynny, yn ddarostyngedig i is-baragraff (6).

(4) Mae'r cyfeiriadau yn is-baragraff (3) at gymorth neu wasanaethau a ddarperir, neu daliadau a wneir, cyn y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym yn cynnwys cymorth neu wasanaethau nas darperir ond y mae'n ofynnol, neu y caniateir, iddynt gael eu darparu neu y mae'n bosibl y bydd yn ofynnol, neu y caniateir, iddynt gael eu darparu, neu daliadau nas gwneir ond y mae'n ofynnol, neu y caniateir, iddynt gael eu gwneud neu y mae'n bosibl y bydd yn ofynnol, neu y caniateir, iddynt gael eu gwneud, cyn y dyddiad hwnnw.

(5) Mae'r ddarpariaeth y cyfeirir ati yn is-baragraff (3) yn cynnwys, yn benodol, ddarpariaeth ynghylch—

(a) costau a symiau eraill sy'n daladwy a'u hadennill;

(b) gwasanaethau cyfreithiol sifil (o fewn yr ystyr a roddir i "civil legal services" yn Rhan 1 o Ddeddf Cymorth Cyfreithiol, Dedfrydu a Chosbi Troseddwyr 2012);

(c) troseddau.

(6) Nid yw is-baragraff (3) yn awdurdodi awdurdod lleol i wneud unrhyw un o'r canlynol ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym—

(a) creu arwystl o dan adran 22(1) o Ddeddf 1983;

(b) gwneud gorchymyn o dan adran 23(1) o'r Ddeddf honno;

(c) ymrwymo i gytundeb ar daliadau gohiriedig o dan adran 55(1) o Ddeddf 2001.

(7) Pan fo deddfiad yn peidio â chael effaith o dan y Rheoliadau hyn at ddiben y mae awdurdod lleol yn dal tir ar ei gyfer yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, mae'r tir i gael ei drin fel pe bai wedi ei gyfeddu at ba ddibenion bynnag o'r Ddeddf y mae'r awdurdod yn eu dynodi.

(8) Pan fo deddfiad yn peidio â chael effaith o dan y Rheoliadau hyn at ddiben y mae gan awdurdod lleol hawl i ddefnyddio tir ar ei gyfer yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym—

(a) mae'r awdurdod yn parhau i fod â'r hawl honno i ddefnyddio'r tir at ba ddibenion bynnag o'r Ddeddf y mae'r awdurdod yn eu dynodi, ond

(b) nid yw hynny'n effeithio ar yr amgylchiadau (ac eithrio bod y deddfiad yn peidio â chael effaith) y mae'r hawl yn peidio odanynt.

(9) Nid yw'r paragraff hwn yn rhagfarnu adran 16 o Ddeddf Dehongli 1978(217) (arbedion cyffredinol).

Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â gorfodi dyledion

4.—(1) Yn ddarostyngedig i is-baragraffau (4) a (5), gellir adennill swm neu ffi y mae is-baragraff (2) yn gymwys iddo neu iddi o dan adran 70 o'r Ddeddf (adennill costau, llog etc) fel pe bai'n swm sy'n ddyledus i'r awdurdod lleol o dan sylw o dan Ran 5 o'r Ddeddf.

(2) Mae'r is-baragraff hwn yn gymwys i unrhyw swm neu ffi sy'n ddyledus i awdurdod lleol yng Nghymru o dan unrhyw un neu ragor o'r ddarpariaethau perthnasol mewn cysylltiad â chymorth neu wasanaethau (gan gynnwys swm neu ffi sy'n dod yn ddyledus ar neu ar ôl y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym).

(217)1978 p. 30.

- (3) At ddibenion is-baragraff (2), y darpariaethau perthnasol yw—
- (a) Rhan 3 o Ddeddf 1948 (gwasanaethau awdurdodau lleol);
 - (b) adran 17 o Ddeddf 1983 (ffioedd am wasanaethau awdurdodau lleol yng Nghymru a Lloegr);
 - (c) adran 29 o Ddeddf Plant 1989(218);
 - (d) Rhan 3 o Atodlen 2 i'r Ddeddf honno;
 - (e) Mesur Codi Ffioedd am Wasanaethau Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2010(219).

(4) Nid yw is-baragraff (1) yn gymwys i swm na ffi y mae achos adennill wedi dechrau mewn cysylltiad ag ef neu hi cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(5) Gellir adennill swm neu ffi o dan is-baragraff (1) o fewn y cyfnod y gallai, oni bai am y paragraff hwn, fod wedi ei hadennill o'i fewn o dan adran 56 o Ddeddf 1948 (achosion cyfreithiol neu, yn ôl y digwydd, o dan unrhyw un neu ragor o'r darpariaethau perthnasol.

(6) Er gwaethaf paragraff 3(3) o'r Atodlen hon, nid yw adran 56(1) o Ddeddf 1948 nac unrhyw un o'r darpariaethau perthnasol yn gymwys mewn perthynas â swm neu ffi y gellir ei adennill neu ei hadennill o dan is-baragraff (1).

Darpariaeth drosiannol sy'n ymwneud ag anghydfodau ynghylch preswylfa arferol

5. Mae unrhyw gwestiwn o ran preswylfa arferol oedolyn sy'n codi o dan Ddeddf 1948 ac sydd i gael ei ddyfarnu gan Weinidogion Cymru ar neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym i gael ei ddyfarnu yn unol ag adran 195 o'r Ddeddf (anghydfodau ynghylch preswylfa arferol a hygludedd gofal a chymorth).

Darpariaeth drosiannol mewn perthynas â gwarchod eiddo personau a dderbynnir i ysbytai etc.

6.—(1) Er gwaethaf paragraff 3(3) o'r Atodlen hon, mae unrhyw gamau a gymerir gan awdurdod lleol yng Nghymru, yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, i atal neu i leihau'r golled o eiddo, neu'r difrod i eiddo, yn unol ag adran 48 o Ddeddf 1948 (dyletswydd cynghorau i warchod dros dro eiddo personau a dderbynnir i ysbytai etc.) i gael eu trin, ar neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, fel pe baent wedi eu cymryd yn unol ag adran 58 o'r Ddeddf (gwarchod eiddo personau y gofelir amdanynt i ffwrdd o'u cartrefi).

(2) Caniateir i unrhyw dreuliau rhesymol yr eir iddynt ond nas adenillir cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym gan yr awdurdod lleol yng Nghymru o dan adran 48 o Ddeddf 1948, ar neu ar ôl i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, gael eu hadennill o dan adran 58(9) o'r Ddeddf.

Darpariaeth arbed mewn perthynas â phwerau Gweinidogion Cymru i ymyrryd

7.—(1) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, bydd adran 7D o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 yn parhau i fod yn gymwys mewn unrhyw achos pan fo gorchymyn sy'n cynnwys cyfarwyddydau wedi ei wneud o dan adran 7D(1) a phan na fo'r cyfnod ar gyfer cydymffurfio â'r cyfarwyddydau wedi dod i ben cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym.

(2) Er gwaethaf y diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau hyn, bydd cymhwysiad Pennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2013 (ymyrryd mewn awdurdodau lleol) gan adran 50A(1) o Ddeddf 2004 (ymyrryd – Cymru) yn parhau mewn unrhyw achos—

(218) 1989 p. 41.
(219) 2010 mccc 2.

- (a) pan fo Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod seiliau dros ymyrryd â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer y swyddogaethau a bennir yn adran 50A(2) o Ddeddf 2004 a phan na fo'r cyfnod cydymffurfio mewn hysbysiad rhybuddio a roddir o dan adran 22 o Ddeddf 2013 wedi dod i ben cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, neu
- (b) pan fo gan Weinidogion Cymru, yn union cyn i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, y pŵer i ymyrryd o dan Bennod 2 o Ran 2 o Ddeddf 2013 â'r modd y mae awdurdod lleol yn arfer y swyddogaethau a bennir yn adran 50A(2) o Ddeddf 2004.

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud o dan adran 198 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ("Deddf 2014").

Mae Rhannau 2 i 6 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch gwella'r canlyniadau llesiant i bobl yng Nghymru y mae arnynt angen gofal a chymorth ac i ofalwyr y mae arnynt angen cymorth. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol sydd ar hyn o bryd yn sail i'r ddarpariaeth o ofal a chymorth i bobl a chymorth i ofalwyr yng Nghymru.

Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sydd i gael ei diwygio ac sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i oedolion a gofalwyr ("y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol") yn gymwys o ran Cymru yn unig. Bydd y diwygiadau sydd wedi eu gwneud yn y Rheoliadau hyn yn golygu bod y ddeddfwriaeth gofal cymunedol gyfredol wedi ei diddymu, neu (i'r graddau y mae'n parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr) na fydd bellach yn gymwys o ran Cymru ond y bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.

Yn gyffredinol, mae'r ddeddfwriaeth sylfaenol sy'n ymwneud â darparu gofal a chymorth i blant a'u teuluoedd wedi ei chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989"). Bydd y diwygiadau sydd wedi eu gwneud yn y Rheoliadau hyn yn golygu na fydd Rhan 3 o Ddeddf 1989 bellach yn gymwys o ran Cymru ond y bydd, fodd bynnag, yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.

Mae Rhan 7 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ynghylch diogelu oedolion a phlant hyglwyf, gan gynnwys sefydlu Byrddau Diogelu i oedolion a phlant. Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf Plant 2004 ("Deddf 2004") i ddileu'r gofynion cyfredol i sefydlu Byrddau Lleol Diogelu Plant yng Nghymru.

Mae Rhan 8 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol. Mae'n cyflwyno Atodlen 2, sy'n pennu swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol. Mae hefyd yn gwneud darpariaeth ar gyfer penodi cyfarwyddwyr gwasanaethau cymdeithasol, ar gyfer gwneud codau ynghylch arfer swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol ac ar gyfer ymyrraeth gan Weinidogion Cymru pan fo awdurdod lleol yn methu ag arfer ei swyddogaethau gwasanaethau cymdeithasol yn gywir. Mae darpariaeth ar gyfer y materion hyn wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn Neddf Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol 1970 ("Deddf 1970"). Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 1970 fel na fydd bellach yn gymwys o ran Cymru ond y bydd yn parhau i fod yn gymwys o ran Lloegr.

Mae Rhan 10 o Ddeddf 2014 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cwynion a sylwadau am wasanaethau cymdeithasol sy'n cael eu darparu neu eu trefnu gan awdurdodau lleol. Mae darpariaeth ar gyfer cwynion wedi ei chynnwys ar hyn o bryd yn Rhan 2 o Ddeddf Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Iechyd

Cymunedol a Safonau) 2003 (“Deddf 2003”) ac mae darpariaeth ar gyfer sylwadau mewn perthynas â phlant wedi ei chynnwys yn Rhan 3 o Ddeddf 1989. Bydd y Rheoliadau hyn yn diwygio Deddf 2003 a Deddf 1989 i ddileu’r ddarpariaeth ar gyfer y materion hyn i’r graddau y maent yn ymwneud â Chymru.

Yn gyffredinol, pan fo darpariaeth yn neddfwriaeth sylfaenol y DU wedi ei datgymhwyso o ran Lloegr a bwriedir na fydd yn gymwys mwyach o ran Cymru, mae’r Rheoliadau yn darparu i’r ddarpariaeth honno gael ei hepgor neu (os yw hyn yn gymwys i Ddeddf gyfan) ei diddymu. O ran rhychwant yr hepgoriad hwnnw neu’r diddymiad hwnnw, dim ond awdurdodaeth Cymru a Lloegr y caiff ei rhychwantu ac nid oes ganddo unrhyw effaith ar y ddarpariaeth honno i’r graddau y mae’n rhychwantu awdurdodaeth yr Alban neu awdurdodaeth Gogledd Iwerddon.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn gwneud diwygiadau canlyniadol a chysylltiedig i ddarpariaethau deddfwriaethol sylfaenol eraill sy’n cyfeirio, at ddibenion amrywiol, at y ddeddfwriaeth gofâl cymunedol gyfredol, Deddf 1989, Deddf 2004, Deddf 1970 neu Ddeddf 2003. Mae’r diwygiadau hyn yn gwneud, mewn cysylltiad â Chymru, ddarpariaeth sy’n adlewyrchu’r darpariaethau newydd yn Neddf 2014.

Mae’r Atodlen yn cynnwys darpariaethau trosiannol ac arbed mewn cysylltiad â’r diwygiadau a wneir gan y Rheoliadau.